**LC1155**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## The Cereal Seed (Wales) Regulations 2005

Mae cyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd yn gofyn bod rhaid i hadau sicrhau ardystiad swyddogol eu bod wedi bodloni safonau ansawdd penodol cyn cael eu marchnata. Mae'r Rheoliadau yma'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni cyn i hadau grawnfwydydd gael eu hardystio.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r mân wallau drafftio canlynol wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7(v); bernir bod pob un yn briodol i'w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

- Atodlen 1, paragraff 55(3), dylai'r croesgyfeiriad gyfeirio at baragraff 52(3);
- Atodlen 3, paragraff 13, mae'r geiriau "The maximum number of wild oats per hectare shall be as follows" wedi'u cynnwys ddwywaith;
- Atodlen 4, paragraff 12, mae'r tabl y cyfeirir ato yn eisiau;
- Atodlen 7, dylai'r cyfeiriad ar reoliad 27(6) yn y nodyn ymyl fod yn gyfeiriad at reoliad 26(6).

O dan Reol Sefydlog 11.7(viii), tynnir sylw arbennig at y ffaith bod y Rheoliadau yma wedi'u gwneud

yn uniaith Saesneg. Mae adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth i sicrhau mai dim ond os yw’r drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg y caniateir i’r Cynulliad gymeradwyo drafft o’r offeryn statudol sy’n cynnwys unrhyw eitem o is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad oni bai ei bod, o dan yr amgylchiadau penodol, yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i’r drafft fod yn ddwyieithog. Mae’r gofyniad yma wedi’i adlewyrchu yn Rheol Sefydlog 24.2.

Deellir bod y Gweinidog o’r farn ei bod yn amhriodol paratoi drafft dwyieithog am resymau sy’n cynnwys cymhlethdod y Rheoliadau a’r ffaith eu bod wedi’u hanelu’n bennaf at y diwydiant hadau bach yn hytrach nag at y cyhoedd yn gyffredinol neu gyrff gwirfoddol.

O dan yr amgylchiadau, bernir bod yr esboniad yn dderbyniol ac nad oes angen cymryd dim camau pellach.

## Sylwadau

Mae mân bwyntiau fformadu, sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau, wedi’u mynegi i’r cyfreithiwr a’u drafftiodd.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 18 Hydref 2005